# Swyddog Ystadegol Uwch

## Pecyn Gwybodaeth

Dyddiad cau – 5 Ionawr 2026

**Hyd: Parhaol**

**Cyflog: £45,974 – £54,430 (codiad cyflog yn yr arfaeth)**

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

## Croeso



*Owen Evans, PAEF*

Mae'n amser gwych i ymuno â ni yn Estyn. Rydym yn cefnogi ysgolion a darparwyr eraill yn weithredol trwy ddiwygiadau cyffrous ym myd addysg yng Nghymru. Mae ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddysgwyr ledled Cymru ac, yn Estyn, maent wrth wraidd popeth a wnawn.

Rydym yn falch o chwarae rôl hollbwysig mewn gwella addysg a hyfforddiant. Mae ein pobl yn angerddol am yr hyn a wnânt ac rydym yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n hybu atebolrwydd, yn cefnogi gwelliant ac yn helpu i lywio dyfodol dysgu yng Nghymru.

Rydym ni'n chwilio am arweinydd dadansoddol sy'n mwynhau troi data cymhleth yn fewnwelediad ystyrlon sy'n cefnogi penderfyniadau gwell ar draws Estyn. Byddwch yn dod â medrusrwydd technegol cryf, ymagwedd ofalus a threfnus at ansawdd data, a meddylfryd gydweithredol sy'n helpu pobl eraill i ddeall a defnyddio tystiolaeth â hyder. Mae'r rôl hon yn ddelfrydol ar gyfer rhywun sy'n gwerthfawrogi eglurder, trylwyredd ac arloesedd, yn enwedig o ran sut caiff data ei reoli, ei ddadansoddi a'i gyfleu. Os ydych chi'n cael eich cymell gan wasanaeth cyhoeddus ac yn awyddus i ffurfio gwaith ystadegol o ansawdd uchel sy'n cael effaith go iawn, byddem yn falch o glywed gennych chi.

Trwy ymuno â ni, byddwch yn dod yn rhan o sefydliad blaengar sy'n esblygu, un sydd wedi ymrwymo i ddysgu, gwella a datblygu ei bobl. Byddwch hefyd yn gallu manteisio ar gyfleoedd ar draws y Gwasanaeth Sifil ehangach, gan gynnig lle i chi dyfu a llunio eich gyrfa.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys mwy o wybodaeth am sut beth yw gweithio gyda ni, manylion am y rôl ac arweiniad ar sut i wneud cais.

## Pam gweithio i Estyn?

Ni yw'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Ein nod yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant i ddysgwyr yng Nghymru. Un o'n rolau allweddol yw arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru i roi sicrwydd i'r cyhoedd a'r llywodraeth ynghylch safonau addysgol.

Rydym yn helpu darparwyr addysg, fel ysgolion a cholegau, i wella ansawdd a deilliannau. Rydym hefyd yn cynghori Llywodraeth Cymru ynghylch polisi addysgol ac yn paratoi adroddiadau ar ystod eang o faterion a themâu addysgol. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith i'w gweld yma.

Mae ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddysgwyr yng Nghymru ac rydym yn gwybod mai ein tîm ymroddedig sy'n helpu i wneud i hynny ddigwydd.

Rydym yn credu mewn cefnogi a gwerthfawrogi pob aelod o'n tîm. O'r cychwyn cyntaf, cewch eich croesawu i amgylchedd cyfeillgar a phroffesiynol, lle mae eich syniadau a'ch cyfraniadau o bwys. Fe gewch gyfnod ymsefydlu trylwyr i'ch helpu i ddeall sut mae'ch rôl yn rhan o'n cenhadaeth gytûn. Byddwch yn rhan o rwydwaith cydweithredol o gydweithwyr, yn eich tîm ac ar draws y sefydliad ehangach.

Rydym wedi ymrwymo i'ch helpu i dyfu. Byddwch yn gallu manteisio ar ystod eang o gyfleoedd dysgu a datblygu i feithrin eich medrau a chefnogi eich taith gyrfa, p'un a yw hynny trwy hyfforddiant unigol neu ddatblygiad tîm.

Os yw gwneud gwahaniaeth o bwys i chi a'ch bod eisiau gweithio rhywle sy'n cefnogi eich datblygiad ac yn gwerthfawrogi eich lles, mae Estyn yn lle gwych i weithio.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i greu gweithle lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu cefnogi a'u bod yn gallu ffynnu. Yn Estyn, rydym yn gwerthfawrogi safbwyntiau gwahanol a phrofiadau bywyd sy'n ein helpu i gryfhau fel sefydliad a gwneud penderfyniadau gwell a mwy gwybodus ar gyfer y dysgwyr a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn gwybod bod tîm amrywiol yn dod â syniadau newydd, sgyrsiau cyfoethocach a deilliannau cryfach. Dyma pam rydym yn annog ceisiadau gan bobl o bob cefndir, diwylliant a phrofiad.

Un flaenoriaeth strategol allweddol yw cynyddu amrywiaeth ein gweithlu. Mae ein hymrwymiad i recriwtio a denu talent amrywiol yn ymestyn i annog ceisiadau'n weithredol gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl anabl. Rydym yn mabwysiadu arferion recriwtio cynhwysol, gan gynnwys llunio rhestr fer o ymgeiswyr yn ddall ac rydym yn falch o fod yn gyflogwr sy'n hyderus o ran anabledd, gan gynnig cymorth ag addasiadau trwy ein proses er mwyn gwneud yn siŵr y gallwch fod ar eich gorau.

Trwy gydweithio â'n gilydd a dathlu'r hyn sy'n gwneud pob un ohonom yn unigryw, gallwn barhau i wneud gwahaniaeth ystyrlon i addysg yng Nghymru.

disability confident EMPLOYER

## Gweithio hyblyg a gweithio hybrid

Yn Estyn, rydym yn credu bod hyblygrwydd yn helpu ein pobl i wneud eu gwaith gorau wrth gynnal cydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd. Dyna pam rydym yn cefnogi dull gweithio hybrid ar gyfer ein tîm Gwasanaethau Canolog.

Yn nodweddiadol, mae hyn yn golygu gweithio o gartref, a mynychu'r swyddfa yng Nghaerdydd yn rheolaidd, un diwrnod yr wythnos, fel arfer. Mae'n gyfle gwych i gydweithio, dal i fyny wyneb-yn-wyneb a chadw mewn cysylltiad. Mae hyblygrwydd hefyd i weithio mwy yn y swyddfa, os yw hynny'n well gennych.

Rydym hefyd yn dod ynghyd fel Gwasanaethau Canolog ac yn cynnal cynadleddau i'r holl staff trwy gydol y flwyddyn i ddod â phawb at ei gilydd, rhannu'r newyddion diweddaraf a chryfhau ein hymdeimlad o gymuned.

Rydym yn gweithredu system oriau hyblyg hefyd, gan roi hyd yn oed mwy o ryddid i chi lunio'ch diwrnod gwaith mewn ffordd sy'n addas i chi ac yn bodloni anghenion busnes.

Mae'n ymwneud ag ymddiriedaeth, cydbwysedd a chefnogi ein gilydd i weithio'n dda, ble bynnag yr ydym.

## Am bwy rydym ni'n chwilio

Byddwch chi'n arwain swyddogaeth ystadegol Estyn, gan sicrhau cyflawni dadansoddi data amserol a threiddgar, o ansawdd uchel, sy'n cefnogi amcanion strategol a rhaglenni arolygu. Byddwch chi'n goruchwylio casglu, dadansoddi a chyflwyno data trwy offer fel SQL a Power BI, gan sicrhau bod allbynnau'n gadarn, yn hygyrch ac yn cyd-fynd ag anghenion rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Byddwch chi'n darparu tystiolaeth ystadegol ymddiriedus sy'n llywio'r penderfyniadau a wnawn, yn gwella effaith gwaith ymchwil ac arolygu, ac yn gyrru gwelliant parhaus mewn arfer ddadansoddol ar draws y sefydliad.

**Mae tasgau allweddol yn cynnwys:**

- Arwain ar brosesau echdynnu data, trawsnewid a sicrhau ansawdd gan ddefnyddio SQL a thechnegau codio dadansoddol eraill.
- Gweithio'n rhagweithiol gyda Llywodraeth Cymru, Medr a chyflenwyr a defnyddwyr data eraill i nodi a chael mynediad at setiau data perthnasol, gan sicrhau defnydd moesegol a chydymffurfio â safonau llywodraethu.
- Cydweithio â'r Uwch Swyddog Ymchwil i sicrhau bod tystiolaeth ystadegol yn ychwanegu at ganfyddiadau ansoddol ac yn cefnogi astudiaethau dulliau cymysg.
- Hyrwyddo ac ymgorffori arferion rheoli data cadarn ar draws y tîm.
- Arwain dadansoddi ystadegol cymhleth i ddiwallu anghenion rhanddeiliaid, cymhwyso dulliau priodol ac arferion codio yn SQL, lle mae angen.
- Datblygu prosesau dadansoddol atgynyrchadwy a thryloyw gyda threfn gref o ran sicrhau ansawdd a rheoli fersiynau.
- Gwerthuso cyfleoedd i ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial a thechnegau dysgu peiriant i wella effeithlonrwydd a mewnwelediad o fewn cynhyrchu ystadegol.
- Dylunio a darparu dangosfyrddau rhyngweithio a delweddau data gan ddefnyddio Power BI, ac offer arall, lle bo'n briodol, i gyfleu mewnwelediadau yn effeithiol.
- Cyflwyno dadansoddiadau mewn ffyrdd clir a difyr, teilwra allbynnau i gynulleidfaoedd amrywiol ac uchafu effaith.
- Darparu cyngor arbenigol ar ddehongliadau ystadegol i randdeiliaid, gan sicrhau bod allbynnau'n llywio'r penderfyniadau a wneir.
- Meithrin a chynnal perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, staff arolygu, a phartneriaid eraill, gan sicrhau bod gwaith dadansoddol yn cael ei yrru gan ddefnyddwyr ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau polisi.
- Troi gofynion dadansoddol cymhleth yn brosiectau go iawn sy'n diwallu anghenion rhanddeiliaid mewn modd amserol.
- Gofyn yn rhagweithiol am adborth i sicrhau bod allbynnau'n parhau'n berthnasol ac yn hygyrch.
- Bod yn rheolwr llinell ar ystadegwyr iau, a'u mentora, gan feithrin diwylliant o ddatblygiad proffesiynol a safonau dadansoddol uchel.
- Hyrwyddo arloesedd mewn dulliau ystadegol, delweddu, a lledaenu, yn cynnwys archwilio rôl Deallusrwydd Artiffisial mewn cefnogi gwaith Estyn.
- Rheoli a monitro cyllidebau dyranedig, gan sicrhau rheolaeth ariannol, tryloywder, a gwerth am arian effeithiol wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus. Cyfrannu at gynllunio ariannol a rhoi sicrwydd fod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon i gyflawni blaenoriaethau sefydliadol.

# Manyleb yr unigolyn

### Mae'n hanfodol fod gennych chi:

- Brofiad cryf mewn SQL ar gyfer trin, echdynnu a thrawsnewid data
- Gwybodaeth am foeseg data, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), a thrin data sensitif yn ddiogel
- Hanes profedig o ddarparu dangosfyrddau rhyngweithiol a delweddu mewn Power BI
- Profiad o gymhwyso ystod eang o dechnegau ystadegol ac arferion codio i sicrhau dadansoddi atgynyrchadwy o ansawdd uchel
- Medrau cryf wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid, gyda'r gallu i droi gofynion dadansoddol yn allbynnau clir ac y gellir gweithredu arnynt
- Gallu profedig i gyfleu cysyniadau ystadegol cymhleth yn glir ac yn hygyrch i gynulleidfaoedd annhechnegol
- Ymwybyddiaeth o Ddeallusrwydd Artiffisial a thechnegau dysgu peiriant, a dealltwriaeth o'u cymhwyso o bosibl i wella prosesau dadansoddol
- Medrau dadansoddol, datrys problemau a rheoli prosiect rhagorol
- Gradd israddedig mewn disgyblaeth rifog (e.e. ystadegau, mathemategwyr, economeg, gwyddorau cymdeithasol gydag ystadegau, neu wyddor data).

### Mae'n fanteisiol fod gennych chi:

- Brofiad o weithio gyda setiau data gweinyddol mawr ac/neu ddata yn gysylltiedig ag addysg o fewn y sector cyhoeddus.
- Adnabyddiaeth o ieithoedd rhaglennu ystadegol.
- Gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Ymddygiadau allweddol

- Cyfathrebu a dylanwadu
- Newid a gwella
- Cyflawni ar gyflymdra
- Gwneud penderfyniadau effeithiol
- Rheoli gwasanaeth o ansawdd da

Mae'r Fframwaith Cymwyseddau ar gyfer Grŵp Ystadegau'r Llywodraeth (GSG) yn diffinio safonau arbenigedd proffesiynol (medrau technegol a defnyddio a hyrwyddo ymchwil gymdeithasol) sy'n ofynnol ar gyfer Swyddogion Ystadegol. Ceir mwy o wybodaeth ac enghraifft o'r ymddygiadau hyn yn y Proffiliau Llwyddiant – Ymddygiadau'r Gwasaaneth Sifil ar radd Uwch Swyddog Gweithredol.

## Manteision ymuno ag Estyn

Yn ogystal â chydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd, boddhad swydd, diwylliant cefnogol, cyfleoedd dysgu a datblygu parhaus a datblygiad proffesiynol, gallwch hefyd ddisgwyl manteision eraill, gan gynnwys y canlynol:

- Cyflog cystadleuol a phwyntiau cynyddrannol, sy'n golygu y byddwch fel arfer yn cyrraedd uchafswm y raddfa gyflog ymhen dwy/tair blynedd ar ôl ymuno â ni.
- Hawl hael i wyliau – 41 diwrnod i ffwrdd o'r gwaith bob blwyddyn (sy'n cynnwys 31 diwrnod o wyliau blynyddol, yn ogystal â 10 diwrnod o wyliau cyhoeddus / braint (pro-rata ar gyfer y rhai sy'n gweithio'n rhan-amser).
- Gweithio hyblyg – Rydym yn gweithio system oriau hyblyg, gan roi'r rhyddid i chi lunio'ch diwrnod gwaith mewn ffordd sy'n addas i chi ac sy'n bodloni anghenion busnes.
- Pensiwn rhagorol – Pan fyddwch yn ymuno ag Estyn, byddwch yn dod yn rhan o gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil fel mater o drefn, sef un o'r cynlluniau pensiwn mwyaf gwerthfawr yn y DU. Rydym yn buddsoddi yn eich dyfodol trwy gyfrannu **28.97%** o'ch cyflog sy'n cyfateb i **£13,318** y flwyddyn, gan eich helpu i gronni pensiwn cryf a sicr ar gyfer yn ddiweddarach mewn bywyd.
- Cefnogi eich lles – Rydym yn darparu awr o amser lles bob wythnos (ar sail pro-rata) ar gyfer staff. Rydym hefyd yn darparu rhaglen cymorth i gyflogeion, gwiriadau iechyd blynyddol am ddim, pigiadau ffliw tymhorol, cynllun gofal llygaid am ddim a'r gallu i fanteisio ar Gynlluniau Yswiriant Iechyd trwy Ofal Iechyd y Gwasanaeth Sifil.
- Cefnogaeth i'ch bywyd teuluol – Polisïau hael sy'n ystyriol o deuluoedd, gan gynnwys absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.
- Arbedion di-dreth – Y gallu i fanteisio ar gynllun beicio i'r gwaith.

## Ymgeisiwch nawr!

**Ymholiadau:** Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y rôl, cysylltwch â **Rhidian Dafydd** ar rhidian.dafydd@estyn.gov.uk.

**Ymgeisiwch ar-lein:** I wneud cais am y rôl, ewch i - **JobBoard (estynpeoplehr.cymru)**.

**Dyddiad cau: 10:00yb ar 5 Ionawr 2026**

**Trefniadau amgen neu ddogfennau hygyrch:** Os hoffech wneud cais neu gael at y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch i drafod eich gofynion

## Proses ddethol a dyddiadau allweddol

Gallwch wneud cais yn Gymraeg neu Saesneg. Ni fydd cais sy'n cael ei gyflwyno'n Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais sy'n cael ei gyflwyno'n Saesneg. Gall eich cais gael ei gyfieithu i'r Gymraeg neu'r Saesneg (yn dibynnu ar iaith fwyafrifol y panel).

Mae'r broses ddethol yn cynnwys:

**Sifftio ceisiadau:** Bydd panel yn ystyried pob cais cyflawn. Mae'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni yn eich cais yn bwysig o ran penderfynu a fyddwn yn eich gwahodd i'r cam dethol nesaf. Bydd ymgeiswyr yn cael eu hasesu yn ystod y broses sifftio yn erbyn pob un o'r meini prawf hanfodol, yn unol â manyleb yr unigolyn. Caiff y meini prawf dymunol eu hasesu yn ystod y broses sifftio pan fydd maes cryf o ymgeiswyr, fel ail gam ar ôl ystyried y meini prawf hanfodol.

**Asesiad a Chyfweliad:** Bydd ymgeiswyr sy'n cael eu gwahodd i chyfweliad yn cael eu hasesu eto ar sail eu medrau, profiad ac ymddygiadau o ran manyleb yr unigolyn. Bydd yr asesiad yn ogystal, gofynnir cwestiynau ag arddull cymhwysedd i chi hefyd ar gymwyseddau technegol Grŵp Ystadegwyr y Llywodraeth (GSG). Yn ystod hynny, disgwylir i chi ddangos dealltwriaeth o ddwy dechneg ystadegol. Efallai y bydd y canllaw i dechnegau ac offer ystadegol GSS yn ddefnyddiol wrth ddewis pa dechnegau ystadegol i siarad amdanynt. Cyn y cyfweliad, byddwch yn cael 40 munud i sefyll prawf byr, a fydd yn ffurfio cyflwyniad i'w gyflwyno i'r panel ar ddechrau'r cyfweliad. Ni ddylai'r cyflwyniad bara mwy na 5 munud. Os ydych chi eisoes yn aelod o Grŵp Ystadegwyr y Llywodraeth, rydych wedi'ch eithrio rhag sefyll y prawf hwn. Caiff hwn ei gynnal ar 13 Ionawr yng Nghaerdydd.

Ar ôl y cyfweliad, gofynnir i chi gwblhau prawf amlddewis a fydd yn para 45 munud, sydd wedi'i lunio i brofi eich rhifedd a'ch gwybodaeth ystadegol.

**Swyddi gweigion a rhestrau wrth gefn yn y dyfodol:** Os oes modd eich penodi, ond nad oes swydd addas ar gael ar unwaith, efallai y byddwn yn eich ychwanegu at restr wrth gefn. Mae'r rhestr wrth gefn yn ddilys am hyd at ddeuddeg mis o'r dyddiad y byddwn yn cadarnhau canlyniad eich cais. Bydd yr e-bost canlyniad yn cadarnhau a ydych ar restr wrth gefn. Os bydd swydd wag addas yn codi yn ystod y cyfnod hwnnw, efallai y byddwn yn eich argymell ar gyfer apwyntiad. Rydym yn penodi o'r rhestr wrth gefn yn nhrefn teilyngdod.

# Deallusrwydd Artiffisial

### Defnydd ymgeiswyr o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI)

Gall offerynnau deallusrwydd artiffisial (AI) fod yn ddefnyddiol yn ystod y broses ymgeisio. Efallai y byddant yn ddefnyddiol i chi o ran ymchwilio i Estyn a'r rôl rydych yn gwneud cais amdani, rhoi trefn ar eich meddyliau, mireinio eich ysgrifennu neu baratoi ar gyfer cyfweliad.

Fodd bynnag, er y gall AI eich cynorthwyo, ni ddylai ddisodli eich mewnbwn dilys eich hun. Hoffem ddod i'ch adnabod chi fel unigolyn, felly rhaid i unrhyw gynnwys sy'n cael ei greu gyda chymorth AI adlewyrchu eich profiad a'ch llais gwirioneddol.

### Ni ddylech ddefnyddio offerynnau AI i:

- Orliwio eich cymwysterau neu'ch cyflawniadau
- Camliwio eich profiad neu'ch galluoedd
- Copïo a gludo ymatebion generig neu ymatebion sydd wedi'u creu gan AI heb eu haddasu i sicrhau eu bod yn eich cynrychioli chi'n gywir

Rhaid i bob enghraifft a datganiad yn eich cais fod yn wir, yn ffeithiol gywir a deillio o'ch profiad eich hun. Os caiff llên-ladrad neu gamliwio ei ganfod (gan gynnwys defnyddio AI i gyflwyno syniadau neu brofiadau pobl eraill fel eich rhai chi), gellir tynnu'ch cais yn ôl.

Gweler arweiniad AI i ymgeiswyr y Gwasanaeth Sifil am ragor o wybodaeth ar ddefnydd priodol ac amhriodol.

### Sut mae Estyn yn defnyddio AI

Mae safbwynt sefydliadol Estyn ar ddefnyddio AI i'w weld yma. Wrth recriwtio, gallwn ddefnyddio offerynnau AI i ategu ein prosesau, er enghraifft i helpu i greu syniadau ar gyfer hysbysebion swyddi, drafftio swydd ddisgrifiadau, asesiadau neu gwestiynau cyfweliad.

Fodd bynnag, ni fyddwn byth yn defnyddio offerynnau AI i wneud penderfyniadau am ddethol neu gyflogi. Ni fyddwn yn mewnbynnu gwybodaeth am ymgeiswyr i offeryn AI. Caiff yr holl ganlyniadau recriwtio eu gwneud gan y panel recriwtio.

## Egwyddorion recriwtio

Mae ein prosesau recriwtio wedi'u seilio ar yr egwyddor o ddewis ar gyfer penodi yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Rydym yn dilyn Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

Mae ein prosesau recriwtio hefyd yn cyd-fynd â chod y gwasanaeth sifil, sy'n rhan o delerau ac amodau pob gwas sifil.

Mae Cod y Gwasanaeth Sifil yn amlinellu gwerthoedd craidd y Gwasanaeth Sifil:

- Gonestrwydd
- Uniondeb
- Didueddrwydd
- Gwrthrychedd

Os ydych yn teimlo nad ydym wedi trin eich cais dan yr Egwyddorion neu God y Gwasanaeth Sifil a'ch bod yn dymuno cwyno, yn y lle cyntaf , dylech gysylltu â thîm recriwtio Estyn.  Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb a gewch gennym, efallai y gallech ofyn i Swyddfa Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil ystyried eich cwyn ymhellach.

regulated by Civil Service Commission